

Mae Sgiliau a Gwybodaeth Prentisiaeth Gradd Tirfesur Lefel Uchel yn cynnwys

Sgiliau

Bydd Syrfewr yn gallu:

Darparu data, gwybodaeth a chyngor i gleientiaid sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth o dirfesur.

Argymhell atebion i sicrhau amgylcheddau gwaith diogel a sicr.

Deall y telerau ar gyfer caffael/gwaredu eiddo neu weinyddu contract.

Rheoli telerau ymgysylltu yn unol â safonau proffesiynol.

Cynnal archwiliadau safle ac arolygon ac adrodd ar ddeilliannau.

Cynnal astudiaethau dichonoldeb neu werthusiad sy'n berthnasol i'r maes ymarfer.

Darparu atebion negodi yn ddiduedd i faterion sy'n effeithio ar berchnogion a deiliaid tir ac eiddo.

Defnyddio dulliau safonol o fesur a, lle bo'n briodol, offeryniaeth i fesur tir ac eiddo.

Paratoi a chyflwyno mesuriadau mewn modd priodol.

Dadansoddi costau a buddion mentrau cynaliadwyedd ar brosiect gan ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth.

Darparu gwasanaethau cwsmeriaid da.

Sgiliau Penodol ar gyfer Syrfewyr Adeiladu

Darparu cyngor yn ymwneud â thechnoleg adeiladu adeiladau a'u deunyddiau.

Paratoi dyluniad a manyleb prosiectau adeiladu o'r cynigion amlinellol hyd at gwblhau'r broses dylunio a manylebau.

Gwybodaeth

Bydd Syrfeŵr yn gwybod:

Y gyfraith a rôl cynghorwyr cyfreithiol sy'n ymwneud â naill ai caffael/gwaredu eiddo, ffurfiau safonol o contractau adeiladu neu contractau eraill sy'n ymwneud ag eiddo.

Y dulliau a'r technegau ar gyfer darparu gwybodaeth, data a chyngor i gleientiaid neu gydweithwyr neu randdeiliaid.

Gweithdrefnau cyfrifyddu a dulliau ar gyfer cael a rheoli cyllid.

Sut i sicrhau amgylcheddau gweithio diogel i chi'ch hun ac i eraill.

Pwysigrwydd a chydabod amrywiaeth. Gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol, a moesegol gan gynnwys amgylcheddau cynhwysol e.e. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Sut i ymgorffori cynaliadwyedd mewn prosiectau a sut i ddylanwadu ar ymddygiad cleientiaid a rhanddeiliaid i liniaru newid yn yr hinsawdd e.e. caffael cadwyn gyflenwi.

Y dechnoleg adeiladu cymhleth gan gynnwys deunyddiau.

Sut i reoli perthnasoedd cleient/cwsmer, rhanddeiliaid.

Patholeg fanwl adeiladau a'r diffygion, yr achosion a'r atebion cysylltiedig.

Y fethodoleg ar gyfer cwblhau technegau archwilio ac archwilio eiddo.

Camau amrywiol y broses ddylunio, gofynion a rheoliadau cyfreithiol gan gynnwys cynllunio, Rheoliadau Adeiladu a gofynion iechyd a diogelwch a golygiadau strwythurol y dyluniad.

Ffuriau Safonol contract ac is-contract adeiladu, mecanweithiau a gweithdrefnau cytundebol a gymhwysir ar wahanol gamau o'r contract.

Rôl a chyfrifoldebau gweinyddwyr y contract a dyletswyddau'r partïon i'r contract.

Pan fo gwahanol fathau o gaffael a thendro yn briodol a chymalau contractau adeiladu/seilwaith.

Technegau i reoli contractwyr, isgontractwyr a/neu gyflenwyr. Adrodd a rhagweld.

Sut i gynnal prisiadau cyfalaf a rhenti cymhleth o dir ac eiddo a'r gofynion ar gyfer adrodd ar brisio.

Sut mae cyfraith tir, cyfraith landlord a thenant a chyfraith cynllunio yn effeithio ar feddiannaeth, rheolaeth a defnydd adeiladau a thir.

Y gofynion a'r rhesymau dros archwiliad eiddo. Materion diogelwch wrth gynnal arolygiad a nodi trefniadau mynediad.

Y sail ar gyfer mesur, technegau cipio data a safonau a chanllawiau priodol. Cyfyngiadau a graddau cywirdeb sydd eu hangen ar gyfer mesuriadau.

Deall effaith amgylcheddol gweithgareddau Adeiladu a sut i leihau effeithiau negyddol yn ystod pob cam o'r Adeiladu.

Ymddygiadau

Darparu gwasanaeth o safon uchel – Sicrhau bod eich cleient, neu eraill y mae gennych gyfrifoldeb proffesiynol drostynt, yn cael cyngor, cymorth neu berfformiad gorau posibl o ran y telerau ymgysylltu rydych wedi cytuno iddynt ar bob adeg a sicrhau bod sylw'n cael ei rhoi i fanylion ar bob adeg.

Gweithredu mewn ffordd sy'n hybu ymddiriedaeth yn y proffesiwn o dirfesur – gweithredu mewn modd sy'n hyrwyddo eich hun, eich cwmni, neu'r sefydliad rydych yn gweithio iddo mewn ffordd broffesiynol a phositif, yn eich bywyd proffesiynol a'ch bywyd preifat ill dau.

Gweithredu ag uniondeb – Bod yn ymddiriedadwy, yn agored ac yn eglur ar bob achlysur. Parchu gwybodaeth gyfrinachol eich cleientiaid neu ddarpar gleientiaid a pheidio â chaniatáu i ragfarn, gwrthdrawiad buddiannau na dylanwad gormodol eraill ddiystyru eich barn neu rwymedigaethau proffesiynol neu fusnes.

Gweithredu'n gyson er budd y cyhoedd bob amser wrth wneud penderfyniadau neu roi cyngor.

Trin eraill â pharch – trin pawb â chwarteisi, moesgarwch a pharch ac ystyried sensitifrwydd diwylliannol ac arferion busnes.

Hyrwyddo ac ystyried cynaliadwyedd, ac arferion ynni effeithlon i leihau effaith amgylcheddol negyddol a newid yn yr hinsawdd.

Cymryd cyfrifoldeb – Gweithredu bob amser gyda sgil, gofal a diwydrwydd a delio ag unrhyw gŵyn mewn modd proffesiynol priodol gan ddefnyddio eich menter eich hun lle a phan fo angen.

Nodi eich anghenion datblygu eich hun a chymryd camau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Deall a chadw at fframweithiau llywodraethu a rheoleiddio Cyrff Proffesiynol y Diwydiant e.e. RICS, CIOB. Safonau moesegol byd-eang a phroffesiynol a chymhwyso'r Rheolau Ymddygiad a sut i ddelio â chyfyng-gyngor moesegol.

Pynciau ar gyfer Tirfesur

1. Effaith a manteision Tirfesur ar Gymdeithas a'r Amgylchedd

1.1 Lleihau effaith Amgylcheddol negyddol

1.2 Lleihau newid hinsawdd ac effaith

2. Cynladwyedd

2.1 Ymgorffori mewn prosiectau

2.2 Dylanwadu ar ymddygiad cleient

3 Technoleg Adeiladu

3.1 Paratoi dyluniadau a manylebau

3.2 technoleg adeiladau cymhleth gan gynnwys deunyddiau

4. Cyfraith tir, eiddo, a chynllunio

4.1 Caffael/gwaredu eiddo

4.2 Ffuriau safonol o gontractau adeiladu

4.3 Contractau eraill yn ymwneud ag eiddo

4.4 Cyfraith Cynllunio

5. Dulliau ymchwil

5.1 Technegau archwilio safle

5.2 Rheoli perygl llifogydd

5.3 Profi deunyddiau

5.4 Modelu ffisegol a rhifiadol

5.5 Dadansoddiad trafndiaeth

5.6 Llif traffig ffyrdd

5.7 Rheoli traffig a diogelwch

6. Cydymffurfio â chodau cyfredol

- 6.1 Cynllunio
- 6.2 Dylunio
- 6.3 Cynnal a Chadw Adeiladau
- 6.4 Cynnal a Chadw Isadeiledd
- 6.5 Safonau a deddfwriaeth

7. Patholeg Adeiladu

- 7.1 Cwblhau archwiliad eiddo
- 7.2 Nodi diffygion, achosion a chywiriadau
- 7.3 Arolygu a mesur

8. Gweinyddu contractau

- 8.1 Ffuriau safonol y contract codi/adeiladu
- 8.2 Ffuriau safonol is-gontract codi/adeiladu
- 8.3 Tendro
- 8.4 Costio a chynllunio costau
- 8.5 Effeithlonrwydd contractau Adeiladu
- 8.6 Risgiau masnachol ac ariannol
- 8.7 Arian wrth gefn a lwfansau risg
- 8.8 Adrodd a rhagweld

9. Rheoli Cyllidebau, adnoddau, a risg

- 9.1 Adnoddau a chostau ariannol
- 9.2 Ansawdd
- 9.3 Perfformiad
- 9.4 Gwelliannau Parhaus
- 9.5 Strategaethau gwella ansawdd
- 9.7 Rhagweld
- 9.8 Adnoddau dynol
- 9.9 Gweithdrefnau cyfrifyddu
- 9.10 Dadansoddiad cost a budd

- 10. Arolygon adeiladau
 - 10.1 Dadansoddi gwybodaeth geo-ofodol
 - 10.2 Priso ac arfarnu cymhwysol

- 11. Iechyd a Diogelwch
 - 11.1 Asesiad Risg
 - 11.2 Datganiadau Dull

- 12. Cyfathrebu Effeithiol
 - 12.1 Modelau Dylunio
 - 12.2 Cyfrifiadau
 - 12.3 Adroddiadau
 - 12.4 Arluniau
 - 12.5 Manylebau
 - 12.6 Cyflwyniadau
 - 12.7 Cyfryngau Digidol
 - 12.8 Rheoli gwybodaeth

- 13. Amrywiaeth a Chynhwysiant
 - 13.1 Cyfreithiol
 - 13.2 Rheoleiddiol
 - 13.3 Moesegol
 - 13.4 Amgylcheddau cynhwysol

- 14. Personol a Rhyngpersonol
 - 14.1 Moeseg a Phroffesiynoldeb
 - 14.2 Perthnasoedd cleientiaid
 - 14.3 Rheolau ymddygiad
 - 14.4 DPP

- 15. Rheoli Pobl
 - 15.1 Adeiladu Tîm
 - 15.2 Gwaith Tîm Effeithiol

15.3 Rheoli Amser

15.3 Adolygu ac Arfarnu perfformiad

15.4 Technegau rheoli newid